

Enw: William Jenkins Rees

Dyddiad geni: 1772

Dyddiad marw: 1855

Rhiant: Rice Rees

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: clerigwr a hynafiaethydd

Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant

Awdur: Selwyn Jones

Ganwyd 10 Ionawr 1772 yn Llanymddyfri; am ei dras, gweler yr ysgrif '[Rees](#) o'r Ton.' Aeth i ysgol ramadeg Caerfyrddin (1789) ac wedyn (12 Ebrill 1791) i Goleg Wadham, Rhydychen; graddiodd yn 1795. Urddwyd ef yn 1796, a daliodd guradiaethau Stoke Edith a West Hide (sir Henffordd) hyd 1806, pan gafodd fywoliaeth Casgob yn sir Faesyfed - o 1806 ymlaen yr oedd hefyd yn ficer Haiob (Heyop) gerllaw Trefyclawdd, ac yn 1820 yn ganon yng Ngholeg Crist, Aberhonddu; etholwyd ef yn F.S.A. yn 1840. Etifeddodd diroedd pan fu farw ei dad (1826), ond daliodd i fyw yng Nghasgob; ac yno bu farw (o'r parlys), 18 Ionawr 1855. Anaml y gwelwyd g r mwy gweithgar nag ef. Y mae rhestr faith o'i lyfrau yn y *Cardiff Catalogue*, ond nid yw honno ond cysgod o'i ddiwydrwydd. Ceir syniad cyflawnach o hwnnw wrth drosi'r casgliad helaeth o'i lythyrau ('Tonn MSS.') sydd yn Llyfrgell Dinas Caerdydd. Yr oedd yn un o'r selocaf o'r cwmni o glerigwyr llengar (megis [John Jenkins](#) a [Thomas Price](#)) a fu wrthi'n atgyfodi'r eisteddfod ac yn gefn i ailgychwyniad Cymdeithas y Cymmrodorion - ar hyn gweler Helen Ramage yn *Cymm.*, 1951, pen. v. Bu hefyd ar fwrdd golygyddol y ' Welsh MSS. Society ' yr argraffwyd ei llyfrau gan ei nai [William Rees](#) (1808 - 1873) - dros y gymdeithas honno y cwplaodd lyfr ei nai [Rice Rees](#) ar ' Lyfr Llandaf,' 1840, ac y golygodd *The Lives of the Cambro-British Saints*, 1853. Ysyaeth, nid oedd ei ysgolheictod yn gydradd â'i sêl, a beirniadwyd y ddau lyfr hyn yn llym gan ysgolheigion diweddarach - gweler cyfeiriadau [J. E. Lloyd](#) yn ei ysgrif ar Rees yn y *D.N.B.*

Awdur

Selwyn Jones, (1906 - 1981)

Ffynonellau

Foster, *Alumni Oxonienses*

a'r cyfeiriadau eraill a roddwyd uchod

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [17653296](#)

Wikidata: [Q16858267](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

